CFfI Llanddeiniol

Newyddion 2006

CODI ARIAN DRWY GANU CAROLAU

Ar noson braidd yn oer o Ragfyr aeth tua 25 o aelodau ac arweinyddion ar y bererindod flynddol o amgylch y pentrefi cyfafos yn canu carolau. Cafwyd croeso gan bawb a cyfraniadau hael i'r casgliad. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd. Daeth cyfanswm casgliad y noson i £550 a byddwn yn rhannu'r arian yma rhwng apel CFfI Cymru eleni sef Ymchwil Cancr Cymru a Ceredigion Crossroads 'Caring for Carers'.

MAINC MYFENYDD

Mae sawl mis wedi pasio erbyn hyn ers i CFfI Llanddeiniol dderbyn llythyr gan gyngor ysgol Myfenydd yn gofyn am ein cymorth. Roeddynt am weld mainc siâp pedol yn cael ei osod yn y cae chwarae ac yn gofyn a fyddai aelodau'r clwb yn medru cynorthwyo gyda'r creu. Derbyniwyd y sialens ac aed ati i lunio'r fainc. Emyr Harries fu'r brif ddolen gyswllt gyda'r ysgol, yn mesur ac yn holi barn. Efe hefyd a gymrodd ati i siapio'r pren a chreu'r wahanol ddarnau a fyddai yn rhan o'r fainc orffenedig. Mae dyled y clwb yn fawr iddo am roi o'i amser ac am gyflawni gwaith arbennig. Bu'r aelodau hefyd yn cynorthwyo mewn sawl modd ond yn bennaf, ar un diwrnod gwlyb yn Ebrill, pan fu criw i lawr ar gae chwarae'r ysgol yn gosod y sylfaen ac yn adeiladu'r fainc. Wedi'r gwaith caled roedd y fainc yn werth ei gweld.

Ar y 19eg o Dachwedd aeth Andrew ac Emyr i Lanelwedd i gyflwyno'r prosiect yn niwrnod agored Her y Gymuned CFfI Cymru. Roedd y clwb wedi ymgeisio yn y gystadleuaeth Her y Penwythnos ac wedi creu bwrdd arddangos yn dangos y camau amrywiol oedd ynghlwm a'r gwaith. Ar ddydd Mawrth y Ffair Aeaf cyhoeddwyd y canlyniadau a dyfarnwyd y wobr gyntaf i CFfI Llanddeiniol. Cyflwynwyd siec a thlws i gynrychiolwyr y clwb sef Andrew ac Emyr gan gadeirydd y Cyngor Cefn Gwlad, Mr John Lloyd Jones, sef noddwyr y gystadleuaeth. Mae'n braf fod y gwaith caled wedi talu ffrwyth ac wedi cael ei gydnabod yn y fath fodd.

Roedd yn brofiad arbennig i'r aelodau gael cyd weithio ar brosiect o'r fath a gobeithio y bydd disgyblion ysgol gynradd Myfenydd yn cael blynyddoedd o bleser yn defnyddio'r ychwanegiad diweddaraf i'w cae chwarae.

EISTEDDFOD Y SIR (23 a 25 Tach)

Cynhaliwyd Eisteddfod y Sir yn Neuadd y Celfyddydau Llanbed a CFfI Llanddeiniol yn cystadlu mewn 12 cystadleuaeth lwyfan. Ar y nos Iau bu Carwyn a Huw yn chwarae eu offerynnau yn gelfydd yn yr Unawd Offerynnol, a Huw yn cael ei ddyfarnu'n ail mewn cystadleuaeth o safon uchel. Bu Andrew a Gethin yn gohebu ar straeon diddorol yn y gystadleuaeth Bwletin Newyddion, y merched yn canu'n swynol yn y Parti Unsain a criw mawr o fois a Miss Evans yn perfformio sgets 'Yr Ysgol'. Braf oedd clywed ymateb y gynulleidfa i jocs y sgets.

Cliciwch yma i weld mwy o luniau Eisteddfod y Sir

Parhawyd gyda'r cystadlu ar fore Sadwrn pan bu Huw yn llefaru dan 13eg ac yna Ffiona ac Enfys yn Canu Emyn. Nesaf ar y llwyfan oedd criw yr ymgom sef Gethin, Ffion a Betsan yn perfformio darn o waith o eiddo Dylan Iorwerth. Daeth ABBA a Queen yn fyw unwaith eto wrth i 17 o aelodau gamu ar y llwyfan yn y Meimio i Gerddoriaeth. Tro'r unawdwyr oedd hi unwaith eto pan bu Gareth Harries a Carwyn yn adrodd digri, Gareth ac Anti Bertha yn cyrraedd y 3ydd safle. Cynrychiolwyd CFfI Llanddeiniol yn y

ddeuawd ddoniol eleni gan ddau alien o blaned yr odbods, dywed rhai taw Ffion ac Enfys oedd yn cwato tu ôl i'r cymeriade!
Diweddwyd cystadlu Llanddeiniol pan ddaeth Ffiona i'r llwyfan i ganu'r gan 'Wyt ti wedi meddwl' yn yr unawd Sioe Gerdd.
Braf oedd clywed fod Enfys wedi cyrraedd yr 2il safle yn y limrig ac yn 1af yn y frawddeg. Daeth Rhaglen y Clwb hefyd i'r brig.
Wedi'r holl gystadlu, cyhoeddwyd fod CFfI Llanddeiniol yn 8fed yn yr Eisteddfod. Llongyfarchiadau i'r holl aelodau fu'n perfformio - braf oedd gweld criw Llanddeiniol yn gyson ar y llwyfan.

19/11/2006

Diwrnod prysur yng Nghanolfan CFfI Cymru yn Llanelwedd.
Cynhaliwyd diwrnod briffio rhyngwladol gyda Enfys yn ymgeisio am daith a diwrnod agored Her y Gymuned, gyda phrosiect y clwb yn cael ei arddangos. Bu Andrew ac Emyr yn cyflwyno'r prosiect i'r beirniad ac yn esbonio'r hyn wnaeth y clwb fel rhan o'r cynllun. Cyhoeddir y canlyniadau yn y Ffair Aeaf.
Llongyfarchiadau i Enfys ar gael ei dewis i gynrychioli Cymru ar dîm y Rali Ewropeaidd ynghyd ac Owen o Landdewi (arweinydd), Gwenan o Lanwenog a Ros ac Aled o Sir Benfro. Cynhelir y Rali yn yr Almaen y flwyddyn nesaf ar ddiwedd Gorffennaf.

GALA DATHLU CFFI CYMRU (5 Tach)

Bu Ffiona, Anwen ac Enfys yn rhan o ddathliadau 70 CFfI Cymru dros y penwythnos yma. Wedi dau ddiwrnod o ymarferion yng Nghanolfan y Mileniwm Cymru, Caerdydd daeth y noson fawr a 1600 o bobl wedi dod ynghyd i wylio'r gala. Yn y côr mawr, oedd yn cynnwys 200 o leisiau, oedd y merched ac yn cael y cyfle i ganu gyda Sian Cothi yn Rhaid i mi Fyw ac yna tuag at ddiwedd y sioe yn canu dwy gan sef Brenin y Ser ac ar Noson fel Hon.
Profiad bythgofiadwy yn sicr oedd cael bod yng nghanol y 400 o aelodau a fu'n rhan o'r gala ar y llwyfan ar ddiwedd y perfformiad.

SIARAD CYHOEDDUS CYMRAEG

Cynhaliwyd cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg CFfI Ceredigion yn ystod yr wythnos diwetha. Bu dau dîm yn cynrychioli'r clwb yn yr adran dan 16eg. Llongyfarchiadau iddynt oll am wneud ei gwaith mor dda, ac roeddem yn hynod o falch clywed am lwyddiant dau o'r aelodau. Daeth Ffiona yn 2il fel cadeirydd a Carwyn yn 2il fel diolchydd. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch chi.
Aelodau eraill y timau oedd Sion Edwards (siaradwr); Gwenllian Thomas (cadeirydd); Caryl Vaughan (siaradwr) a Gareth Harries (diolchydd).

20/10/2006

Ar hyn o bryd mae Gareth Morfa yn treulio tair wythnos yn Unol Daleithiau America ar daith gyfnewid gyda CFfI Cymru. Bu Gareth yn ffodus i gael ei ddewis i gynrychioli Cymru ar y daith ynghyd ac Arwel o glwb Llanwennog. Dwi'n siwr ei fod yn cael amser wrth ei fodd mas gyda'r 'Yanks' ac edrychwn ymlaen i glywed yr hanes pan fydd yn troi am adre.